Mis Plannu a Rhannu

DEWCH AT EICH GILYDD
Dod â phobl ynghyd drwy fwyd

# Berwr Bendigedig

Tyfwch ferwr a gwnewch frechdan wy a berwr blasus.

Rhan o'r teulu Brassicaceae yw berwr, fel radis a betys. Mae'n gnwd dibynadwy sy'n tyfu'n gyflym ac felly'n wych i'w dyfu mewn ysgol, clwb ieuenctid neu gartref.

Canllaw cam wrth gam yw'r adnodd hwn i fynd ati i dyfu berwr ac i wneud brechdan wy a berwr flasus.

Planhigyn cyflym, hawdd a chost-effeithiol i'w dyfu ar y silff ffenestr mewn dosbarth neu gartref yw berwr. Gallwch gynnal arbrawf byr sy'n addas i blant 5-12 oed er mwyn iddynt allu profi'r dull gorau o dyfu'r cnwd ac i ddysgu am yr amodau tyfu. Mae defnyddio potiau iogwrt neu focsys wyau i'w dyfu yn ffordd wych o gychwyn ar eich taith arddio.

## Arbrawf tyfu berwr

Mae tyfu berwr bob amser yn hwyl. Yn ogystal â chael profiad o dyfu planhigion, a hynny'n gyflym, cewch gyfle i'w fwyta hefyd! Mae'r arbrawf hwn yn helpu plant i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt i dyfu planhigion a'r amodau tyfu gorau ar gyfer hadau berwr.

Gwyddom fod angen y canlynol ar blanhigyn i dyfu'n llwyddiannus:

1. Golau'r haul
2. Pridd
3. Lle
4. Y tymheredd cywir
5. Dŵr

## Bydd angen:

- Hadau berwr
- Pridd
- Gwlân cotwm
- Dŵr
- Pum potyn planhigyn bach (mae bocsys wyau neu botiau iogwrt yn iawn)
- Labeli er mwyn i chi gofio pa arbrawf yw pob un pan fyddwch yn casglu pob un at ei gilydd
- Llefydd gwahanol i wneud eich arbrawf; rhywle tywyll, oer a silff ffenestr heulog



ACTIVITY

| Sut i blannu | Cyfarwyddiadau | Sut ydych chi'n rhagweld y bydd y berwr yn tyfu? | Pa mor dda mae'r berwr wedi tyfu? |
|---|---|---|---|
| Plannwch botyn o hadau berwr gyda phopeth sydd ei angen arnyn nhw.<br>Hwn yw eich cnwd rheoli. | Plannwch yr hadau yn y pridd a'u gadael ar y silff ffenestr i dyfu yng ngolau'r haul a chofiwch roi dŵr iddyn nhw yn aml (ond nid gormod – neu byddan nhw'n pydru). | | |
| Plannwch y berwr heb wlân cotwm | Plannwch rai o'r hadau heb unrhyw wlân cotwm na phridd. Efallai yr hoffech gyfnewid y potyn am ddysgl blastig fach. Cofiwch roi dŵr iddyn nhw. | | |
| Heb wres | Plannwch rai o'r hadau mewn potyn ar ben gwlân cotwm (heb bridd) a'u gadael mewn lle oer. Cofiwch roi dŵr iddyn nhw. | | |
| Heb olau | Plannwch botyn arall gyda gwlân cotwm a'i roi mewn lle tywyll fel cwpwrdd neu sied. Cofiwch roi dŵr iddyn nhw. | | |
| Heb ddŵr | Plannwch botyn arall gyda hadau a gwlân cotwm yn y gwaelod ac ychydig bach mwy ar ben yr hadau ond peidiwch â rhoi dŵr iddyn nhw, a'u rhoi ar y silff ffenestr. | | |

Bydd eich arbrawf ar ben mewn 10–14 diwrnod. Dewch at eich gilydd i asesu eich canfyddiadau ac i ganfod yr hyn sy'n annog twf neu'n atal twf.

Gellir defnyddio'r arbrawf hwn yn CA1 a CA2 ac i wneud gwaith gwyddonol.

ACTIVITY



# Rhannu brechdan wy a berwr

(Digon i un)



## Offer

- Sosban
- Llwy dyllog
- Powlen gymysgu
- Fforc
- Cyllell fenyn
- Cyllell fara
- Bwrdd bara

## Cynhwysion

- 2 dafell neu 1 rhôl o fara – gallech wneud y rhain gan ddefnyddio'r rysáit hwn **https://www.fflgettogethers.org/get-involved/resources/cooking/easy-read-bread-roll-recipe/**
- 2 wy organig neu 2 wy maes
- 2 llwy fwrdd o mayonnaise neu hufen salad
- Dail letys neu domatos wedi'u tyfu gartref
- Halen a phupur
- Darn o fenyn
- 1/3 o'ch berwr

## Dull

1. Cynheswch ddŵr mewn sosban nes ei fod yn berwi, a chan ddefnyddio'r llwy dyllog gollyngwch yr wyau'n ofalus i'r dŵr a'u coginio am chwe munud. Rhowch yr wyau o dan ddŵr oer i oeri nes byddan nhw'n ddigon oer i chi allu tynnu'r plisgyn.
2. Pliciwch yr wyau, gan roi'r plisgyn yn eich bin compost a gadael i'r wyau oeri'n iawn.
3. Pan fyddan nhw'n oer, defnyddiwch fforc i'w stwnsio ac
4. Rhowch y ddwy dafell o fara ar fwrdd torri a rhoi menyn arnyn nhw, gan daenu'r gymysgedd wy ar un dafell ac ychwanegu letys neu domatos a berwr cyn rhoi'r ail dafell gyda menyn arni ar ben y cyfan.
5. Yn ofalus, torrwch eich brechdan yn drionglau a mwynhewch!




6 munudau




## Ysgogi sgwrs ac archwilio profiadau synhwyraidd.

- Trafodwch ddigwyddiadau y gallech eu cynnal i rannu'r brechdanau gyda'ch gilydd.
- Dywedwch beth yw eich hoff frechdan a pha un sydd fwyaf poblogaidd?
- O ba ddiwylliant a gwledydd y daw brechdanau? Trafodwch frechdanau clwb neu frechdan deli Efrog Newydd. Pa fwydydd eraill mae diwylliannau eraill yn eu bwyta yn lle brechdan amser cinio?

## Ynglŷn â'r adnodd hwn

Ydych chi'n awyddus i dyfu mwy? Edrychwch ar yr ystod llawn o adnoddau, gan gynnwys sut i dyfu egin pys a pherlysiau ar y silff ffenestr.

www.fflgettogethers.org/cymraeg/

@SAfoodforlife | #FFLGetTogethers | #NationalLottery

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

DEWCH AT EICH GILYDD
Dod â phobl ynghyd drwy fwyd

Soil Association